

Asesiad Risg-Budd

Ardal/ Lleoliad	Coedwig ar tir yr ysgol	Dyddiad	Medi 29ain 2022
Aseswr:	Phoebe Taylor	Dyddiad adolygu	Ebrill 29ain 2023

The boxes in the table below will expand as you type into them; pre-entered text is simply for illustration. You should delete irrelevant items and replace with text relevant to your circumstances.

Your overall risk rating – Low, medium or high – is based on your judgement about whether the BENEFITS of the activity or opportunity outweigh the RISKS.

Profiad yn archwilio'r gofod awyr agored yn y ffotograff	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Cerdded ar dir anwastad	Cefnogi'r synhwyrâu festibiwlau sydd yn helpu'r plant i gydbwysu. Helpu modur bras ac i ddatblygu cyhyrau 'core'. Plant yn dysgu i edrych o dan draed, a do di adnabod bod angen bod yn ofalus wrth gerdded yma.	Gall y plant baglu neu gwmpo oherwydd brigau, gwreiddiau neu ddarnau mawr o bren.	Plant ac oedolion	Egluro i'r plant am y peryglon o'r tir anwastad a beth all baglu dros. Gofyn iddyn nhw i gerdded yn araf i ddechrau bant. Efallai bod y profiad o gerdded ar dir anwastad yn brofiad Newydd i ambell i blentyn, gallwn chwarae gem sydd yn annog y plant i gadw cyd bwysedd fel wiblwobl. Sicrhau bod y plant yn gwisgo esgidiau addas ar ei draed sydd gyda digon o grip arno. Trowsus a gris gyda llawes hir arno i amddiffyn rhag cael sgathred.	I
Bod yn yr awyr agored	Cael profiad o amgylchedd dysgu gwahanol. Helpu datblygu nifer o wahanol sgiliau, modur man, modur bras, mathemategol, gwyddonol, datrys problemau ac yn y blaen.	Gall plentyn cael adwaith alergedd i ryw fwystfil neu blanhigyn. Gall plentyn bwyta rhywbeth gwenwynig a chael bola tost.	Plant ac Oedolion	Wedi siarad gyda'r rhieni er mwyn darganfod a oes gan unrhyw blentyn alergedd. Dod a 'Epi-pens' tu allan gyda ni a chadw nhw arnom ni trwy'r amser. Gwneud yn siwr bod pob aelod o staff yn gwybod am alergedd unrhyw blentyn a'r symptomau i edrych mas am. Pawb yn cael hyfforddiant 'epi-pen'. Egluro'r 'Rheolau Aur' i'r plant sef: Dim rhoi unrhyw beth yn ei geg, dim cerdded bant ym mhellach na'r ffiniau a golchi dwylo ar y diwedd.	I

Profiad yn archwilio'r gofod awyr agored yn y ffotograff	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Yn yr awyr agored mewn gwahanol dywydd	Adeiladu ymwybydiaeth am sut i wisgo'n addas i'r tywydd. Meddwl am wahanol elfennau o'r tywydd. Bod yn ymwybodol o sut i fonitor anghenion corff ei hun.	Gall plentyn llosgi gyda'r haul. Os mae'n wyntog gall coeden cwmpo ar blentyn a gwneud niwed mawr iddo a hyd yn oed lladd plentyn. Gall plentyn mynd yn rhy oer a dioddef o 'hypothermia', neu fynd yn rhi dwym a dioddef o 'sun stroke'.	Plant ac Oedolion	Siarad gyda'r plant am sut i wisgo'n addas i'r tywydd. Pwysigrwydd o wisgo eli haul, yfed digon. Mae yna gysgod o dan y coed, awgrymu i'r plant i ddefnyddio'r cysgod yng nghanol dydd. Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn mynd mas.	I
Adeiladu gwesty bwystfilod	Fel rhan o'r cwricwlwm Newydd, mae un o'r pedwar diben yn sôn am fod yn Ddinasyddion egwyddorol gwybodus. Mae dysgu am greaduriaid bach a sut gallwn helpu nhw yn helpu'r plant i fod yn ddinasyddion egwyddorol. Datblygu gwybodaeth wyddonol am gylchoedd bywyd.	Pigad gan rhyw bwystfil bach. Cael 'splinter'.	Plant ac oedolion	Dangos llun i'r plant am unrhyw fwystfil gall pigo nhw a dweud wrthynt am fod yn ofalus wrth ddala'r bwystfilod bach. Pob oedolyn i gario bag cymorth cyntaf gyda 'tweezers'.	I
Creu hamog rhwng y coed	Sgiliau datrys problemau wrth glymu'r rhwyd. Helpu datblygu modur man wrth glymu, modur bras wrth ddringo i mewn a mas o'r hamog, a gwthio'i gilydd yn yr hamog.	Ddim yn clymu'r rhwyd yn ddigon tynn i'r coed a phlentyn cwmpo o'r hamog.	Plant	Dangos i blant o flaen llaw sut i glymu'r rhwyd yn dynn. Sicrhau nad yw'r rhwyd yn cael ei chlymu'n rhy uchel o'r llawr. Os bydd plentyn yn cwmpo bydd y plentyn ddim yn cael dolur mawr. Symud unrhyw gerrig mawr sydd ar y llawr o dan yr hamog.	I

Profiad yn archwilio'r gofod awyr agored yn y ffotograff	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd?	Peryglon a risgiau posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Adeiladu den	Sgiliau mathemategol a gwyddonol er mwyn creu den digon o faint, ac sydd yn aros lan. Plant yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau fel datrys problemau a ni fydd yn cael yn yr ysgol.	Plentyn cwmpo dros y brigau a chael dolur. Plentyn yn cael ei fwrw gan frigyn yn ei lygaid. 'Splinters' o'r coed.	Plant ac oedolion	Egluro i'r plant bod angen bod yn ofalus wrth gario ac adeiladu'r den, un enwedig gyda'u lygaid. Bod angen i'r plant dewis brigau sydd ddim yn mynd i stico mas gormod o'r siâp y den er mwyn osgoi baglu dros y brigau. Dod a rhyw git cymorth cyntaf sydd yn cynnwys 'tweezers'. Gofyn i'r rhieni odi'r plant wedi cael ei 'tetrus'.	I
'Water Butt'	Plant yn gwneud arbrawf gyda dŵr a phridd yn y gegin fwd. Plant yn dysgu sut i edrych ar ôl planhigion a choed a bod angen dwrhau nhw.	Plentyn yn yfed y dŵr a mynd yn sâl. Plentyn yn cwmpo mewn i'r 'water butt'.	Plant	Egluro'r rheolau aur: peidiwch roi unrhyw beth yn eich ceg. Oedolyn yn gosod caead ar y 'water butt' fel bod plentyn ddim yn gallu cwmpo neu ddringo mewn iddo.	I
Casglu deunyddiau	Cefnogi rhifo mewn ffordd wahanol (hands on), schemas plant, bod nhw'n gallu casglu pethau. Teimlo'r gwahanol weadau.	Cael 'splinter' o'r brigau. Crafad gan rywbeth miniog. Pigo lan gwydr.	Plant	Dysgu plant am bethau sydd ddim yn addas i cyffwrth a, fel gwydr, neu becynnau bwyd fel tins a dod i ddweud wrth yr oedolyn.	I